



Cynigion Comisiwn yr UE ar y Trothwyau ar gyfer Presenoldeb Damweiniol GMO Cymeradwyedig mewn Hadau

Crynodeb

Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru yn ysbrydoli atebion i broblemau amgylcheddol, sy'n gwneud bywyd yn well i bobl

Cyfeillion y Ddaear Cymru:

- yn ymroddedig i ddiogelu'r amgylchedd a hyrwyddo dyfodol cynaliadwy ar gyfer Cymru
- yn rhan o fudiad ymgyrchu amgylcheddol mwyaf dylanwadol y DG
- yn rhan o'r rhwydwaith amgylcheddol mwyaf eang yn y byd, gyda dros 60 o fudiadau cenedlaethol ar draws pum cyfandir
- yn cefnogi rhwydwaith unigryw o grwpiau lleol sy'n ymgyrchu mewn cymunedau ledled Cymru
- yn dibynnu ar unigolion am dros 90% o'i incwm

I ymuno neu wneud cyfraniad, ffoniwch ni ar 0800 581 051

Cyfeillion y Ddaear Cymru

33 Oriel Arcêd y Castell Caerdydd CF10 1BY

Ffôn 029 2022 9577 Ffacs 029 2022 8775 Ebost cymru@foe.co.uk Gwefan www.cyddcymru.co.uk

Cyfeillion y Ddaear Cyfyngedig Cofrestrwyd yn Llundain Rhif 1012357

Swyddfa Gofrestredig 26-28 Underwood Street Llundain N1 7JQ

Argraffwyd ar bapur wedi ei wneud yn llwyr o wastraff defnyddwyr

Cyflwyniad

Mae ymgynghoriad yn digwydd ar hyn o bryd ar ddrafft Gyfarwyddeb y Comisiwn Ewropeaidd ar lefelau llygredd derbyniol o hadau nad sy'n GM gyda deunydd GM (presenoldeb damweiniol). Mae'r prif gynigion a gynhwysir yn y Gyfarwyddeb drafft yn cynnwys:

" Ni ddylai cnydau a dyfir o hedyn confensiynol gael cynhwysedd organeb a addaswyd yn enetig uwch na 1%

" Uwchben y trothwy 1% hwnnw dylai dynodi presenoldeb addasiad genetig mewn bwyd fod yn orfodol

" Dylid nodi amodau samplo a phrofi i sicrhau bod hadau a roddir ar y farchnad yn cydymffurfio â'r gofynion

" Gellir marchnata bwyd sy'n cynnwys dros 1% o organebau wedi eu haddasu'n enetig, cyn belled â'i fod wedi ei labelu'n glir.

Mae gan y Gyfarwyddeb oblygiadau critigol ar gyfer gweithrediad llwyddiannus strategaeth bwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n dibynnu ar farchnata cynnyrch Cymreig fel cynnyrch pur heb ei lygru. Bydd yn penderfynu i ba raddau y diogelir ffermwyr confensiynol rhag llygredd GM yn ogystal â phennu lefel o ddewis defnyddiwr drwy ei amodau ar labelu.

Fel ag y mae, mae'r Gyfarwyddeb yn brin o'r hyn sydd ei angen i ddiogelu strategaeth bwyd y Cynulliad, ffermwyr confensiynol, dewis defnyddwyr ac amgylchedd Cymru. Yn anad dim, mae angen pwysu i:

" osod pellteroedd gwahanu statudol rhwng cnydau GM a chnydau nad sy'n GM

" gosod y trothwy isaf posib ar gyfer labelu hadau wedi eu llygru

"gwrthod y cynnig i ganiatáu marchnata had llygredig sy'n uwch na'r trothwy hwn.

Hepgoriadau Difrifol yn y Gyfarwyddeb Drafft

1. Methiant i ymdrin â llygredd Casgliadau o Had GM gyda amrywiaethau GM eraill.

Dim ond yn ymdrin â llygredd had nad sy'n GM gyda deunydd GM y mae'r Gyfarwyddeb drafft. Mae hefyd yn dyngedfennol bwysig bod y Gyfarwyddeb yn delio â llif genynnau rhwng amrywiaethau sydd wedi eu haddasu'n enetig. Gallai problemau difrifol godi o'r math yma o lygredd.

Yn gyntaf, mae'r problemau diweddar yn y DG ble y cyfaddefwyd bod had olew rêp wedi eu llygru gydag amrywiaethau GM eraill oedd yn cynnwys genynnau gwrth-antibiotig, yn enghraifft o'r peryglon difrifol i iechyd a allai godi o'r math yma o lygredd.

Yn ail, gallai 'pentyrru genynnau' ddigwydd. Gallai amrywiaeth o had olew rêp sy'n goddef chwynladdwr gael eu llygru'n ychwanegol gyda genynnau sy'n gwrthsefyll pryfetach a ffwng wedi ond ychydig o dymhorau o dyfu. Gallai hyn roi mantais gystadleuol i gnydau y tu allan i'r amgylchedd â'r hefyd i berthnasau gwyllt llygredig, allai wedyn fewnwithio i gynefinoedd eraill.

1.2 Methiant i osod pellteroedd gwahanu statudol

Nid yw'r Gyfarwydddeb drafft presennol ar gyfer purdeb had yn gosod unrhyw isafswm pellteroedd gwahanu rhwng cynydau had nad sy'n GM a chnydau GM o'r un rhywogaeth. Mae hwn yn hepgoriad tyngedfennol yn y cynnig, yn arbennig o ystyried pwysigrwydd y diwydiant ffermio organig sy'n datblygu yng Nghymru a'i gyfraniad i strategaeth marchnata'r diwydiant bwyd.

Mae adroddiad Asiantaeth Amgylchedd Ewropeaidd ar draws beillio (organebau sydd wedi eu haddasu'n enetig (GMO): Arwyddocâd llif genynnau trwy drosglwyddiad pail 2002 tud 41) yn cadarnhau ei bod yn bosib y gallai pail a ryddheir o blanhigion india corn GM deithio hyd at 800m. Byddai methu gosod pellteroedd gwahanu statudol yn gwneud y ddeddfwriaeth yn gwbl aneffeithiol. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi gosod cynsail eisoes yn Ewrop drwy sefydlu pellter gwahanu statudol ar gyfer india corn sy'n GM ac nad sy'n GM.

Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru lobio am gytundeb ar y mater hwn.

1.3 Methiant i ddiogelu hadau a achubwyd o ffermydd

Nid yw'r cynnig presennol yn cymryd i ystyriaeth had achubwyd o ffermydd, gweithgaredd gaiff ei ymarfer yn eang y mae ffermwyr yn dewis ei wneud am resymau agronomegol yn ogystal ag economaidd. Pan ddaw gofynion ar gyfer olrhain a labelu yn weithredol mae'n debygol y bydd y cnwd masnachol o had achubwyd o ffermydd yn cael ei sganio ar gyfer llygredd GM. O ystyried y cyffredinolrwydd had achubwyd o ffermydd mae'n debygol na fyddai unrhyw ffermwr sy'n tyfu cynydau GM yn bell o gynhyrchiad had achubwyd o ffermydd. Mae'n debygol mai canlyniad y sefyllfa yma fyddai na fydd ffermwyr yn gallu gwerthu cynnyrch am had achubwyd o ffermydd. Yna cânt eu gorfodi i brynu had ardyst am gost gynyddol i'w busnes.

Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru alw am gymalau i gynnwys had achubwyd o ffermydd.

2. Trothwy Derbyniol o Lygredd

Mae gosod trothwy derbyniol yn hanfodol er mwyn caniatáu i gynllun olrhain a labelu gael ei sefydlu all gadw'r dewis i ffermwyr a defnyddwyr. Mae hefyd yn bwysig i leihau y bygythiad o lygredd sy'n ymgripiad ac i ddarparu ar gyfer monitro llym o'r dechnoleg newydd.

Y trothwy a ddefnyddir ar hyn o bryd gan y rhan fwyaf o ddiwydiant bwyd y DG yw 0.1%. Mae Senedd Ewrop wedi cyhoeddi ei barn y dylai'r trothwy ar gyfer labelu GMO fod yn 0.5%. Mae cynnig y Comisiwn Ewropeaidd ar bresenoldeb damweiniol yn cynnig trothwy o 1%.

Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru lobio ar gyfer dim llygredd, sy'n golygu mewn gwirionedd dim GMO y gellir ei ganfod o fewn ffiniau'r dechnoleg newydd. Byddai hyn wedyn yn dileu unrhyw osod trothwyau mympwyol yn ogystal â'r angen i'w hadolygu'n gyson.

3. Caniatáu marchnata hadau sydd wedi eu llygru yn uwch na'r trothwyau

Mae'n hanfodol bod ffermwyr yn gwybod beth y maent yn ei blannu er mwyn i unrhyw gynllun olrhain a labelu GM o werth ar gyfer bwyd a phorthiant i weithio. Mae'r Gyfarwydddeb drafft yn darparu ar gyfer marchnata casgliadau o hadau wedi eu labelu hyd y trothwy o 1% ac mae hyd yn oed awgrymiadau bod y Comisiwn yn ystyried codi'r ffigur hwn i 5%. Canlyniad y cynnig hwn fydd llygredd yn ymgripiad, tansailio dewis defnyddiwr a ffermwyr a mynd yn erbyn egwyddor gochelgar yn llwyr.

Presenoldeb Damweiniol

Dylai Cynulliad Cenedlaethol lobio ar gyfer gwrthod y cynnig hwn.

4. Arfer dda ar gyfer cynhyrchu had

Mae datgeliadau diweddar am lygrwyr GM o hadau GM yn y treialon ffermydd cyfan yn awgrymu nad yw'r diwydiant biotechnoleg yn gallu dilyn arfer dda yng nghynhyrchiad nac mewn ymdriniaeth o hadau a chnydau GM. Mae'r cynnig hwn yn rhagweld lefel uchel o hunan-blismona gan y diwydiant hadau i ddarparu tystiolaeth eu bod wedi gwneud yr oll y gallant i rwystro llygredd. Yn y mwyafrif o achosion bydd y cyfrifoldeb a'r gost yn disgyn ar gynhyrchwr diniwed hadau nad sy'n GM i gadw eu cynhyrchiad had yn bur ac i brofi eu bod wedi gwneud hynny.

Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru lobio i'r holl hadau gael eu dadansoddi'n annibynnol am bresenoldeb GM anawdurdodedig. Dylai cost hyn gael ei godi gan dreth ar bob had GM a gyflwynir i'r farchnad.

Casgliad

Mae amheuon sylweddol yn parhau ledled Ewrop ynglyn ag ymarferoldeb cydfodolaeth cnydau GM a chnydau nad sy'n GM. Gallai'r Gyfarwyddeb hon gael rôl dyngedfennol i'w chwarae yn y mater hwn. Yn anad dim, dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru lobio am bellteroedd gwahanu statudol rhwng cnydau GM a rhai nad sy'n GM, gosod y trothwy isaf posib ar gyfer lefelau a labelu llygredd, a gwrthod marchnata hadau sydd wedi eu llygru yn uwch na'r lefelau hyn.